OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 938 (Cy. 214) (C. 49)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 2 a Dirymu Gorchymyn Cychwyn Rhif 3 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 4) 2021

*Gwnaed* - - - - *12 Awst 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 100(3) a (4) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 2 a Dirymu Gorchymyn Cychwyn Rhif 3 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 4) 2021.

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 1(2), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "blwyddyn 11" ("*year 11*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y plant, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 16 oed;"

"mae i "blwyddyn ysgol" yr un ystyr â "school year" yn adran 579(**3**) o Ddeddf 1996;"

"ystyr "grŵp blwyddyn" ("*year group*") yw grŵp o blant mewn ysgol y bydd y mwyafrif ohonynt, mewn blwyddyn ysgol benodol, yn cyrraedd yr un oedran;".

(3) Yn erthygl 4, o flaen paragraff (a) mewnosoder—

"(za) sydd ym mlwyddyn 11;

(**1**) 2018 dccc 2.
(**2**) O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/735 (Cy. 184) (C. 34).
(**3**) Mewnosodwyd diffiniad o "school year" gan Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), adran 57, paragraff 43 o Atodlen 7.

(zb) nad yw mewn ysgol ac a fydd yn cyrraedd 16 oed yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-2022;".

(4) Yn erthygl 6, ar ôl "o fewn" mewnosoder "y naill neu'r llall o'r paragraffau yn".

(5) Yn lle erthygl 7 rhodder—

"**7.** Person y mae cynllun datblygu unigol—

(a) yn cael ei lunio o dan adran 40 neu ei gadw o dan adran 42 o'r Ddeddf mewn perthynas ag ef;

(b) yn cael ei lunio neu ei gynnal o dan adran 14 o'r Ddeddf o ganlyniad i reoliad 23 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021(**4**)."

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021(**5**) wedi ei ddirymu.

**4.** Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021(**6**) wedi ei ddirymu.

**5.** Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Diwygio) 2021(**7**) wedi ei ddirymu.

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

12 Awst 2021

(**4**) O.S. 2021/401 (Cy. 130).
(**5**) O.S. 2021/381 (Cy. 120) (C. 13) a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/516 (Cy. 153) (C. 17) ac O.S. 2021/735 (Cy. 184) (C. 34).
(**6**) O.S. 2021/383 (Cy. 121) (C. 14) a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/516 (Cy. 153) (C. 17) ac O.S. 2021/735 (Cy. 184) (C. 34).
(**7**) O.S. 2021/516 (Cy. 153) (C. 17).

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021 mewn cysylltiad â'r rheini sydd ym mlwyddyn 11 neu a fydd yn cyrraedd 16 oed yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-2022 (os nad ydynt mewn ysgol).

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dirymu Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021, Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021 a Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 3 a Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Diwygio) 2021.